OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 20

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

## RHAN 2

### Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

"Dinas Jerwsalem"

"Gweriniaeth Botswana"

"Israel"

"Mauritius"

"Seychelles".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 9 Ionawr 2021 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.